**ATODIAD C – DARN O GOFNODION 21af TACHWEDD**

**Eitem 5: Adolygiad y Pwyllgor Diwylliant o’r iaith Gymraeg – Ystyried effaith polisïau a rhaglenni sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar yr iaith Gymraeg:**

**LGH-15-01 (p.3)**

5.1 Dywedodd y Gweinidog fod y Pwyllgor Diwylliant ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad o’r iaith Gymraeg. Roedd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai wedi cael gwahoddiad i ystyried mewn ffordd integredig y maes y mae’n gyfrifol amdano a sut y gall ei waith effeithio ar dwf yr iaith Gymraeg.

5.2 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Ceisiai rhai Aelodau sicrwydd yngln ag i ba raddau yr oedd polisïau a chynigion tai y Cynulliad, gan gynnwys tai fforddiadwy, yn darparu cefnogaeth i ardaloedd sydd â chanrannau uchel o siaradwyr Cymraeg. Yn ychwanegol at hynny, roedd yna beth amheuaeth yngln â chyfraniad y strategaeth tai wledig at gynnal y Gymraeg yn yr ardaloedd yr ystyrid eu bod fwyaf dan fygythiad.

- Er hynny, roedd yna gytundeb cyffredinol bod y Cynulliad hyd yn hyn wedi gwneud cyfraniad sylweddol tuag at amddiffyn anghenion a buddiannau cymunedau Cymraeg eu hiaith. Yn benodol, yr oedd wedi dechrau mynd i’r afael ag anghenion tai cymunedau gwledig yn llwyddiannus drwy’r cynllun Rural Homebuy. Cydnabyddid bod tai gwledig yn agenda barhaus ac y byddai angen rhagor o waith i helpu i gynnal yr iaith Gymraeg mewn cymunedau gwledig drwy Gymru.

- Byddai’n bwysig asesu effaith yr holl gynigion oedd wedi eu hanelu at fynd i’r afael ag anghenion cymunedau Cymraeg eu hiaith yn drylwyr. Teimlai’r Aelodau na ddylai unrhyw bolisïau na chynigion gyflwyno unrhyw elfen o wahaniaethu ar sail ieithyddol.

- Teimlid bod yn rhaid i Gynlluniau Datblygu Unedol a datblygiadau tai dilynol gymryd yr holl ffactorau cymdeithasol a diwylliannol o fewn cymunedau i ystyriaeth, gan gynnwys y rheiny lle'r oedd yr iaith Gymraeg dan fygythiad.

5.3 Dywedodd y Gweinidog y byddai’n cymryd sylwadau’r Pwyllgor i ystyriaeth, gan gynnwys y rheiny a fynegwyd yn ystod trafodaethau gyda Cymuned (cyfarfod 7 Tachwedd) wrth ystyried polisïau pellach i gyfrannu at wneud cymunedau Cymraeg eu hiaith yn gynaliadwy.

5.4 Dywedodd y Cadeirydd y byddai cofnodion y cyfarfod, ynghyd â chofnodion cyfarfod 7

Tachwedd, yn cael eu hanfon at Rhodri Glyn Thomas, Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant fel ymateb ffurfiol y Pwyllgor i'r adolygiad o'r iaith Gymraeg.